Rhif: WG54869

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Data i fonitro'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Chwefror 2026

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN ddigiol

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymatebion a gasglwyd o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar eitemau data newydd arfaethedig sy'n ymwneud â darpariaeth dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a'r gweithlu addysg mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nad ydynt yn ysgolion. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o wyth wythnos rhwng Hydref a Rhagfyr 2025.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:
Cangen Polisi ADY
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: YGangenAnghenionDysguYchwanegol@llyw.cymru

@WG_Education

Facebook/EducationWales

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Data i fonitro'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) | LLYW.CYMRU

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **5** |
| Ynglŷn â'r ymgynghoriad | 5 |
| Camau Nesaf | 6 |
| **Methodoleg a dadansoddi** | **7** |
| Proffil ymatebwyr ymgynghori ar-lein | 7 |
| Grwpiau ffocws | 8 |
| Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 8 |
| **Cwestiynau ymgynghori** | **10** |
| Penderfyniadau ADY | 10 |
| Cynlluniau cymorth | 12 |
| Meysydd angen | 13 |
| Darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) | 16 |
| Dysgwyr ag ADY mewn dosbarthiadau arbennig | 23 |
| Gwybodaeth am ddosbarthiadau arbennig | 26 |
| Amseroldeb penderfyniadau ADY ac adolygiadau CDU | 29 |
| Cydlynwyr ADY | 35 |
| Goblygiadau i'r gweithlu | 36 |
| Cyffredinol | 37 |
| **Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr** | **41** |

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| AHYYY | Addysg heblaw yn yr ysgol |
| ALl | Awdurdod lleol |
| BILl | Bwrdd iechyd lleol |
| CADY | Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol |
| CDU | Cynllun datblygu unigol |
| Cod ADY | Cod anghenion dysgu ychwanegol Cymru 2021 |
| CYBLD | Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion |
| DDdY | Darpariaeth ddysgu ychwanegol |
| MIS | System gwybodaeth reoli |
| UCD | Uned cyfeirio disgyblion |

# Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canfyddiadau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gasglu data ADY mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol a lleoliadau nad ydynt yn ysgolion ledled Cymru. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r data ADY a gofnodir gan ysgolion ac ALlau ac a gesglir gan Lywodraeth Cymru drwy gasgliadau data statudol yn y dyfodol

Datblygwyd y set o ddata ADY newydd arfaethedig ar gyfer ysgolion a lleoliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol i'w cofnodi, ac i'w casglu gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn ymgysylltu cyn-ymgynghori â swyddogion awdurdodau lleol perthnasol, cynrychiolwyr o ymarferwyr ysgolion, Estyn a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn Hydref 2024. Ystyriodd Llywodraeth Cymru hefyd y data sydd ei angen i gefnogi ffynonellau tystiolaeth ehangach wrth fonitro'r canlyniadau tymor byr, canolig a hirdymor a nodir yn Adroddiad cwmpasu gwerthusiad o'r system ADY. Mae'r data yn ymwneud â:

- plant a phobl ifanc unigol ag ADY, a'u hanghenion, sy'n mynychu lleoliadau addysg a gynhelir yng Nghymru neu sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol (AHYYY).
- darpariaeth ADY a gweithrediad y system o fewn lleoliadau addysg a gynhelir.
- data ar lefel unigol ar y gweithlu addysg (Cydlynwyr ADY) mewn lleoliadau a gynhelir.

At ddibenion yr ymgynghoriad, ystyr ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu wirfoddol, neu ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig nad yw'n cael ei sefydlu mewn ysbyty, ac ysgol feithrin a gynhelir. Ariennir darpariaeth AHYYY gan ALlau ac fe'i cyflwynir mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys trwy unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), darparwyr annibynnol a gwasanaethau dysgu cartref awdurdodau lleol.

## Camau Nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a dderbynnir drwy'r ymgynghoriad. Lle mae cynigion wedi codi cwestiynau neu bryderon, mae Llywodraeth Cymru yn asesu pa newidiadau a allai fod eu hangen i'r eitemau data arfaethedig ac yn nodi unrhyw feysydd lle mae angen gwaith pellach.

Lle bo hynny'n briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y diwygiadau angenrheidiol i'r rheoliadau gwybodaeth sy'n darparu'r sail gyfreithiol i gasglu'r data, a bydd y rhain yn cael eu gosod gerbron y Senedd yn ffurfiol. Bydd canllawiau ategol hefyd i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd mewn meysydd lle nododd ymatebwyr yr angen am eglurder pellach, llai o faich gweinyddol a diffiniad o ddosbarthiadau arbennig. Bydd y mewnwelediadau hyn yn llywio'r broses o fireinio'r eitemau data arfaethedig ac yn helpu i lunio polisi yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn parhau i fod yn ymarferol i ysgolion ac awdurdodau lleol gan gryfhau'r system ADY a gan sicrhau bod polisi a chyflawni yn parhau i gael eu hategu gan ddata cywir, cyson ac amserol.

Mae hyn yn nodi'r cam cyntaf yn y gwelliannau ehangach yr ydym yn eu cyflwyno i systemau casglu data statudol, er mwyn sicrhau bod gennym ddata ADY perthnasol ac ystyrlon i fonitro perfformiad y system, cyflawni dyletswyddau deddfwriaethol, a chefnogi pob dysgwr ADY i wella canlyniadau.

# Methodoleg a dadansoddi

Mae'r adran hon yn amlinellu'r dull a gymerwyd i gasglu ac i ddadansoddi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Data i fonitro'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

### Y broses ymgynghori

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros wyth wythnos, rhwng 8 Hydref 2025 a 3 Rhagfyr 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys un ar hugain o gwestiynau a ddatblygwyd gan dîm polisi anghenion dysgu ychwanegol Llywodraeth Cymru. Cynlluniwyd yr ymgynghoriad i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol, gan gynnwys:

- holiadur ymgynghori
- holiadur symlach i ddysgwyr
- holiadur symlach i rieni a gofalwyr
- fersiwn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) o'r ymgynghoriad
- wyth grŵp ffocws gyda chyfranogwyr o ALlau ac ysgolion.

### Dyluniad yr Arolwg

Roedd yr holiadur yn cynnwys:

- Pymtheg cwestiwn caeedig yn ceisio barn ymatebwyr ar bob un o'r eitemau data arfaethedig. Roedd y cwestiynau yn gofyn i'r ymatebydd nodi i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig (gan ddefnyddio graddfa Likert). Darparwyd blwch sylwadau testun agored hefyd ar ôl pob un o'r cwestiynau caeedig i alluogi ymatebwyr i ychwanegu unrhyw sylwadau ategol.

- Chwe chwestiwn arolwg testun agored i alluogi ymatebwyr i ddarparu adborth a barn ar feysydd penodol, megis eitemau data presennol ac effaith y newidiadau arfaethedig ar y gweithlu a'r llwyth gwaith, neu i ddarparu unrhyw adborth nad oedd ymatebwyr wedi gallu ei ychwanegu o fewn cwestiynau ymgynghori.

## Proffil ymatebwyr ymgynghori ar-lein

Derbyniwyd cyfanswm o 99 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein. Roedd dros hanner (48) o'r gweithlu addysg, gyda 17 o ALlau a 14 gan rieni neu ofalwyr. Cyflwynwyd pedwar o'r ymatebion hynny ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Adolygwyd ac ystyriwyd yr holl ymatebion, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd yn hwyr, wrth baratoi'r adroddiad hwn. Darperir dadansoddiad llawn isod.

Darperir rhestr lawn o'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein, ac eithrio'r rhai a ofynnodd am aros yn ddienw, yn Atodiad A.

**Tabl 1: Proffil yr ymatebwyr (n=99)**

| Categori ymatebydd | Nifer ymatebion |
|---|---:|
| Gweithlu addysg | 48 |
| Awdurdod lleol | 17 |
| Arall | 16 |
| Rhiant neu ofalwr | 14 |
| Y trydydd sector | 4 |
| Dysgwr | 2 |
| Cyflenwr | 2 |
| Ymarferydd iechyd | 2 |
| Academydd neu ymchwilydd | 2 |
| Cyfanswm | 99 |

Nodyn: Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un categori uchod. Roedd yr ymatebwyr 'eraill' yn cynnwys unigolion o sefydliadau rhanddeiliaid, llywodraethwyr ysgolion ac addysg bellach.

## Grwpiau ffocws

Cymerodd cyfanswm o 36 o unigolion ran mewn wyth trafodaeth grŵp ffocws. Cynigiwyd yr opsiwn i ymatebwyr gymryd rhan mewn grŵp Cymraeg neu Saesneg ac fe'i dyrannwyd i grwpiau yn ôl eu dewis iaith.  Cynhaliwyd dau o'r wyth grŵp (un grŵp awdurdod lleol ac un grŵp ysgol) yn Gymraeg.

Cyfranogwyr ALl: Roedd pum grŵp yn cynnwys cyfranogwyr sy'n gweithio mewn ALlau (sy'n cwmpasu rheoli data a rolau polisi ADY) gyda 25 o gyfranogwyr o 15 ALlau gwahanol.

Cyfranogwyr gweithlu addysg: Roedd tri grŵp yn cynnwys cyfanswm o 11 o gyfranogwyr sy'n gweithio mewn ysgolion (pob un ohonynt yn Gydlynwyr ADY neu'n ddarpariaeth ADY â chymorth). Ar draws y tri grŵp ysgol roedd y cymysgedd o leoliadau yn cynnwys 1 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg; 1 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg; 1 ysgol ddwyieithog holl-drwodd; 7 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ac 1 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

Bu i bob trafodaeth bara tua 60 munud. Cyflwynwyd yr un cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori i gyfranogwyr a'u gwahodd i gynnig eu hymateb iddynt. Cafodd cyfranogwyr y grŵp ffocws gyfle hefyd i ymateb i'r dogfennau ymgynghori ysgrifenedig ar-lein, er nad yw'n hysbys faint o fynychwyr y grŵp ffocws a gynigiodd ymateb ysgrifenedig hefyd.

## Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

### Dadansoddiad meintiol o'r cwestiynau caeedig

Cynhyrchwyd cyfansymiau amlder ar gyfer pob un o'r 15 cwestiwn caeedig a ofynnwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, er mwyn amlinellu i ba raddau yr oedd

ymatebwyr yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno neu'n anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob cynnig.

### Dadansoddiad o'r sylwadau ategol

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r data ansoddol (sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r cwestiynau testun agored) gyda phob ymateb yn cael ei adolygu, a chodau neu themâu perthnasol yn cael eu nodi. Fe neilltuwyd cod neu godau i bob ateb gan y tîm ymchwil, gyda chodio wedi'i groeswirio rhwng aelodau'r tîm.

Roedd y fframwaith codio yn cynnwys tua dwsin o themâu ar gyfer pob cwestiwn, a ddatblygwyd o adolygiad cychwynnol o ymatebion ac a fireiniwyd wrth i'r broses codio fynd rhagddo. Roedd pob ymateb i gwestiwn agored wedi'i labelu gyda'r cod perthnasol ar gyfer y themâu neu'r pwyntiau a godwyd. Roedd adolygu'r codau hyn yn caniatáu i'r themâu a godwyd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu nodi.

Yn ogystal â dadansoddi'r themâu a adroddwyd ar draws yr holl ymatebion, ystyriwyd gwahaniaethau ym mha mor aml y codwyd themâu gan ymatebwyr o wahanol sectorau (gweler Tabl 1). Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r gwahaniaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y crynodebau ansoddol.

### Dadansoddiad o adborth grŵp ffocws

Adolygwyd nodiadau a thrawsgrifiadau o'r wyth grŵp ffocws yn llawn. Nodwyd pwyntiau gan ddefnyddio'r un fframwaith a gymhwyswyd i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein, gan sicrhau cysondeb ar draws y ddwy ffynhonnell. Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r pwyntiau a godwyd gan gyfranogwyr y gweithlu addysg a'r rhai a godwyd gan ALlau yn cael eu hadrodd ar wahân.

### Adrodd ar y canfyddiadau

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r themâu a godir amlaf yn deillio o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r themâu a'r pwyntiau a nodir drwy gydol yr adroddiad hwn yn deillio o sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt yn cynrychioli barn awduron yr adroddiad na Llywodraeth Cymru.

## Cwestiynau ymgynghori

### Penderfyniadau ADY

**Cwestiwn 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw ysgol neu awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad ffurfiol am anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gyfer dysgwr yn ystod y 12 mis diwethaf?**

**Tabl 2: Atebion i Gwestiwn 1**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion (%) |
|---|---:|---:|
| Cytuno’n gryf | 42 | 44 |
| Cytuno | 37 | 39 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11 | 11 |
| Anghytuno | 2 | 2 |
| Anghytuno’n gryf | 4 | 4 |
| Cyfanswm | 96 | 100 |

n=96

O’r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 82% (79 allan o 96) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig, roedd 11% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 6% yn anghytuno, neu yn anghytuno’n gryf.

42 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 1.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Byddai'r data yn helpu i wella dealltwriaeth o'r system ADY a llywio gweithrediad y system. Er enghraifft, cydnabuwyd y bydd y data:
  - darparu darlun mwy cywir o faint o ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol. Byddai hyn yn tynnu sylw at dueddiadau yn nifer y disgyblion ADY mewn lleoliadau prif ffrwd.
  - helpu i lywio cyllidebau cynllunio a dyrannu adnoddau.
  - caniatáu olrhain canlyniadau dysgwyr yn well ac atebolrwydd system.
- Codwyd pryderon ynghylch yr angen am adrodd cyson a chywirdeb data. Tynnodd sylwadau sylw at yr angen am eglurder ynghylch sut y dylid casglu a chofnodi'r data hwn, gan gynnwys canllawiau cadarn a diffiniadau clir. Codwyd cwestiwn ynglŷn â sut/pa benderfyniadau ADY fyddai angen eu cofnodi. Er enghraifft, a fyddai'n cynnwys cyfrif ail-ystyriaeth ar gyfer dysgwr lle gwnaethpwyd penderfyniad blaenorol o 'dim ADY'.
- Codwyd yr angen am ymagwedd gyson at gasglu'r data. Mae rhai sylwadau yn awgrymu bod y data eisoes wedi'i gasglu, ond bod angen dull mwy cyson o gasglu'r data er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei adrodd yn gywir ac i leihau'r baich gweinyddol.
- Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cyfathrebu pwrpas casglu'r data hwn.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, roedd y themâu a godwyd amlaf yn debyg i'r rhai a amlinellwyd uchod.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:
- Pryderon y gallai'r data hwn gael ei ddehongli mewn ffordd sy'n cymharu ysgolion neu ALlau mewn ffordd annheg.
- Pryderon y gallai baich gweinyddol posibl godi o orfod casglu/cofnodi'r data hwn.

**Adborth grwpiau ffocws**
Roedd adborth y grwpiau ffocws yn adlewyrchu themâu tebyg i'r ymatebion ysgrifenedig.

Nododd cyfranwyr ALl:
- Byddai casglu'r data hwn yn syniad da.
- Mae casglu'r data hwn yn bwysig oherwydd byddai'n darparu darlun llawnach o ddysgwyr.
- Mae'r data yn tueddu i gael ei gasglu eisoes gan ALlau, ond ar draws gwahanol systemau/llwyfannau. Fodd bynnag, nododd ALlau, lle bo canlyniad penderfyniadau yn un lle nad oedd angen CDU, nad yw'r canlyniad hwn wedi'i gofnodi/casglu ar hyn o bryd ac felly byddai angen rhywfaint o gasglu data ychwanegol.
- Efallai bod ysgolion eisoes yn casglu'r wybodaeth hon, ond mae'n debyg mewn ffyrdd anghyson. Byddai angen ystyried y gwahanol systemau a ddefnyddir ar draws ysgolion ac ALlau wrth weithredu'r cynnig.
- Byddai'r data hwn ond yn darparu darlun rhannol o'r amser a'r adnoddau a gymerwyd ar gyfer pob penderfyniad, gan y gallai hyn amrywio'n sylweddol.
- Efallai y bydd angen prosesau casglu ar wahân ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â CDUau a gynhelir gan awdurdodau lleol ac a gynhelir gan ysgolion.

Nododd cyfranwyr o ysgolion:
- Yn gyffredinol, roeddent yn cytuno â'r cynnig ond roedd ganddynt rai pryderon ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am gasglu'r data hwn a sut.
- Mae angen canllawiau cliriach ar gasglu'r data hwn er mwyn sicrhau cysondeb cofnodi.

## Cynlluniau cymorth

**Cwestiwn 2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ar anghenion a darpariaeth dysgwyr sy'n mynychu ysgolion yng Nghymru sydd â chynllun addysg, iechyd a gofal (EHC)?**

**Tabl 3: Atebion i Gwestiwn 2**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion (%) |
|---|---:|---:|
| Cytuno’n gryf | 45 | 47 |
| Cytuno | 35 | 36 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 12 | 13 |
| Anghytuno | 0 | 0 |
| Anghytuno’n gryf | 4 | 4 |
| Cyfanswm | 96 | 100 |

n=96

O’r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 83% (80 allan o 96) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig, roedd 13% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 4% yn anghytuno’n gryf.

36 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 2.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Byddai'r data yn helpu i wella dealltwriaeth o'r system ADY a llywio gweithrediad y system. Er enghraifft, cydnabuwyd y bydd y data:
  - darparu darlun cywir o anghenion EHC.
  - cryfhau dealltwriaeth genedlaethol o drefniadau trawsffiniol a'u goblygiadau adnoddau.
  - cefnogi cynllunio adnoddau a monitro darpariaeth adnoddau i gefnogi dysgwyr.
- Mewn rhai achosion, mae'r data hwn eisoes wedi'i gasglu. Felly, cwestiynodd ymatebwyr a allai'r cynnig hwn arwain at ddyblygu gwaith. I'r gwrthwyneb, nododd un ymatebydd nad oedd modd clir ar hyn o bryd i adnabod dysgwyr â chynlluniau EHC mewn ysgolion.
- Amlinellodd yr ymatebwyr sut yr oeddent yn meddwl y gellid casglu'r data hwn a phwysigrwydd yr angen i gael dull cyson ledled Cymru. Er enghraifft, esboniwyd y byddai angen ei ffurfioli yn systemau casglu data yr ysgol os yw'r data hwn yn cael ei gasglu. Nodwyd hefyd na fyddai'r data hwn yn broblem i'w gasglu cyn belled â bod gan systemau MIS y gallu i'w gofnodi.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, roedd y themâu a godwyd amlaf yn debyg i'r rhai a amlinellwyd uchod. Nodwyd hefyd gan rai o'r ymatebwyr hyn na fyddai'r cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Dim ond darlun dros dro fyddai'r data yn cynnig, a gallai'r data fod yn anghyfredol yn fuan ar ôl iddo gael ei gasglu a'i gofnodi.

**Adborth grwpiau ffocws**
Roedd adborth y grwpiau ffocws yn adlewyrchu themâu tebyg i'r ymatebion ysgrifenedig.

Nododd cyfranwyr ALl:

- Yn gyffredinol, roeddent yn cytuno bod casglu'r data hwn yn syniad da, yn enwedig ar gyfer ALlau sy'n rhannu ffin â Lloegr (nododd sawl un na fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar lawer o ddysgwyr yn eu hardal).

Nododd cyfranwyr o ysgolion:

- Byddai'r data yn werthfawr i'w gasglu.
- Byddai'r data yn helpu i lywio cynllunio adnoddau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr.

## Meysydd angen

**Cwestiwn 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn am y 4 maes angen (fel yr amlinellir yn y Cod ADY) ar gyfer dysgwyr ag ADY?**

**Tabl 4: Atebion i Gwestiwn 3**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion (%) |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 50 | 52 |
| Cytuno | 36 | 38 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 6 |
| Anghytuno | 1 | 1 |
| Anghytuno'n gryf | 3 | 3 |
| Cyfanswm | 96 | 100 |

n=96

O'r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 90% (86 allan o 96) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 6% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 4% yn anghytuno, neu yn anghytuno'n gryf.

38 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 3.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Byddai'r data yn helpu i wella dealltwriaeth o'r system ADY a llywio gweithrediad y system. Er enghraifft, cydnabuwyd y bydd y data yn:

  - darparu trosolwg o dueddiadau, yn enwedig lle mae anghenion yn cynyddu.
  - hysbysu'r cyllid sydd ei angen i sicrhau'r gefnogaeth gywir i'w ddarparu.
  - llywio gofynion hyfforddiant a datblygiad personol ar gyfer ymarferwyr addysg.
  - cefnogi atebolrwydd a phenderfyniadau polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
  - cynnig darlun mwy cywir a mesuradwy o broffiliau dysgwyr a'r pwysau sy'n wynebu ysgolion i gefnogi dysgwyr.
- Pwysigrwydd diffiniadau cliriach o'r meysydd angen ac eglurder ynghylch yr hyn y byddai angen ei gofnodi e.e. a fyddai'n anghenion cynradd neu anghenion cynradd ac eilaidd yn unig. Byddai angen canllawiau i gefnogi'r eglurder hwn.
- Mae angen casglu data mewn ffordd gyson i sicrhau cywirdeb.
- Pryderon y gallai casglu'r data hwn gael effaith ar lwyth gwaith.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:
- Yr angen am ymgysylltiad trylwyr â rhanddeiliaid i sicrhau bod meysydd eraill o angen yn cael eu cynnwys ac nad ydynt yn cael eu hanwybyddu.
- Byddai'r data yn ymarferol i'w gasglu trwy systemau MIS.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:
- Yn hytrach na rhoi dysgwyr mewn categorïau angen, mae'n bwysig ystyried darlun cyfannol o ddysgwr.

**Adborth grwpiau ffocws**
Roedd adborth y grwpiau ffocws yn adlewyrchu themâu tebyg i’r ymatebion ysgrifenedig.

Nododd cyfranwyr ALl:
- Roedden nhw'n cytuno yn gyffredinol bod casglu'r data hwn yn syniad da.
- Y gallai'r data helpu i lywio cynllunio a darpariaeth mewn ardaloedd lleol trwy nodi tueddiadau mewn anghenion dysgwyr.
- Mae'r data yn tueddu i gael ei gasglu eisoes gan ALlau.

Nododd cyfranwyr o ysgolion:
- Mae angen newid yn y casglu data sy'n gysylltiedig ag anghenion dysgwyr ac mae'r data y bwriedir ei gasglu yn cyd-fynd â'r Cod ADY, CDUau, ac arferion ysgol cyfredol.
- Roedd ganddynt rai pryderon neu ymholiadau ynghylch casglu'r data hwn. Roedd y pryderon yn ymwneud â:
  - defnyddioldeb y data i lywio cynllunio.
  - p'un a fyddai'r disgwyliad i gofnodi prif angen neu o bosibl mwy nag un.

**Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw farn ar y rhestr o ddiagnosis meddygol, amhariadau dysgu ac anghenion dysgu a gesglir ar hyn o bryd yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) am ddysgwyr ag ADY?**

61 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 4.

Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn meddwl bod y rhestr yn gynhwysfawr ac nad oedd angen ei newid. Awgrymwyd hefyd bod y data hwn yn helpu i lywio cynllunio darpariaeth.

Fodd bynnag, cododd cyfran fwy bwyntiau pryder yn ymwneud â'r rhestr neu awgrymodd y dylid ei diwygio. Ymhlith y rhai a ddarparodd sylwadau, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Bod angen mwy o eglurder mewn perthynas â'r eitemau ar y rhestr. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys:
  - mwy o eglurder ynghylch y math o ddiagnosisau meddygol y mae angen eu cofnodi.
  - diffiniadau clir ar gyfer eitemau rhestredig i liniaru'r risg o gofnodi data yn anghywir.
  - cyfathrebu clir i unigolion sy'n casglu/cofnodi'r data y dylai diagnosis ffurfiol fod wedi cael ei ddarparu i gofnodi'r data.
- Mae'r rhestr wedi dyddio ac nid yw'n cyd-fynd â'r Cod ADY a'r 4 maes angen. Fodd bynnag, dywedodd lleiafrif bach y dylid cofnodi gwybodaeth am ddiagnosis meddygol.
- Newidiadau arfaethedig i eitemau penodol ar y rhestr, er enghraifft:
  - awgrym i wahanu anghenion corfforol a meddygol
  - awgrym bod y term Anawsterau Dysgu Cymedrol yn cwmpasu sbectrwm rhy eang
  - eitemau ychwanegol i'w cynnwys yn y rhestr: Dylai anaf i'r ymennydd caffaeledig (ABI), dysgraffia, anghenion prosesu synhwyraidd fod yn gategori ar wahân.
- Nid yw'r rhestr yn cwmpasu'r holl ddiagnosis meddygol. Awgrymwyd y gellid cynnwys categori 'arall', gydag opsiwn i nodi neu ddarparu rhagor o fanylion.
- Pryderon na fyddai unigolion sydd â diagnosis ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ALN yn cael eu dal yn y data hwn.

## Darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)

**Cwestiwn 5: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY wedi'i sicrhau gan fwrdd iechyd lleol (fel y nodir yn eu cynllun datblygu unigol (CDU))?**

**Tabl 5: Atebion i Gwestiwn 5**

| **Categori ateb** | **Nifer ymatebion** | **Canran ymatebion (%)** |
|---|---:|---:|
| Cytuno’n gryf | 48 | 51 |
| Cytuno | 33 | 35 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 9 | 9 |
| Anghytuno | 1 | 1 |
| Anghytuno’n gryf | 4 | 4 |
| Cyfanswm | 95 | 100 |

n= 95

O’r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 85% (81 allan o 95) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn, 9% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 5% yn anghytuno, neu yn anghytuno’n gryf.

52 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 5.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Byddai'r data yn helpu i wella integreiddio ac arferion gweithio ar y cyd rhwng ysgolion a BILlau – neu o leiaf yn pwysleisio'r angen am well arferion ar y cyd.
- Nid yw DDdY a ddarperir gan fyrddau iechyd bob amser yn cael ei gofnodi ac y byddai casglu'r data hwn yn lleihau rhai o'r heriau cyfathrebu y teimlai rhai ymatebwyr sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng ysgolion / ALlau a BILlau.
- Mae angen i'r data hwn wella atebolrwydd mewn perthynas â phwy sy'n gyfrifol am ddarparu DDdY ac amlygu'r baich ychwanegol y gall cymryd y cyfrifoldeb o gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr ag ADY ei roi ar y gweithlu addysg.
- Byddai'r data yn helpu i amlinellu nifer y ceisiadau DDdY sy'n gysylltiedig ag iechyd a wneir gan ysgolion, ALlau a theuluoedd unigol sy'n arwain at ddarpariaeth ac felly'r bwlch posibl rhwng darpariaeth ac angen.
- Codwyd cwestiynau yn y sylwadau ynghylch pwy ddylai gasglu'r data hwn. Roedd rhai o'r farn y dylai hyn fod yn gyfrifoldeb i BILl yn hytrach na lleoliadau addysg. Roedd cwpl o bobl eraill yn tybio y byddai'r data hwn yn cael ei gasglu gan y sector addysg.
- Yr angen am systemau a phrosesau TG gwell ac integredig ar draws y system addysg a rhwng y system addysg a BILl er mwyn casglu'r data hwn.

Amlinellodd nifer llai o ymatebwyr rai pryderon am y baich gweinyddol ychwanegol y gall casglu'r data hwn ei roi ar leoliadau addysg - er bod eraill o'r farn y byddai casglu'r data hwn yn dasg gymharol hawdd.

Ymhlith y nifer fach o ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cynnig hwn, yr unig sylwadau ychwanegol a ddarparwyd yn ymwneud â pha gorff ddylai fod yn gyfrifol am gasglu'r data hwn, er enghraifft BILlau neu'r sector addysg.

Ymhlith ymatebwyr a nododd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, yr unig sylw a gynigiwyd oedd y dylai fod yn syml casglu'r data hwn.

Ar draws ymatebion ysgrifenedig, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at heriau posibl yn y cysylltiadau presennol rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a BILl. Codwyd cyfrifoldeb am gasglu'r data hefyd fel mater, gyda chyfeiriadau at leoliadau addysg ac iechyd.

**Adborth grwpiau ffocws**

Nododd cyfranwyr ALl:

- Roedd y mwyafrif yn cytuno y dylid casglu/cofnodi'r data hwn.
- Roedd un cyfranogwr yn teimlo bod hyn yn ddiangen, gan fod data eisoes yn cael ei gasglu gan BILl a dylai hyn fod yn gyfrifoldeb arnynt.
- Awgrymwyd bod angen alinio amserlenni rhwng addysg ac iechyd ochr yn ochr â'r data hwn a datblygu system rheoli data a rennir.
- Byddai angen eglurder ynghylch a ddylid cofnodi data ar gyngor a chymorth a ddarperir gan gyrff iechyd ar CYBLD yn ogystal ag DDdY wedi'i sicrhau gan y BILl.

Nododd cyfranwyr o ysgolion:

- Niferoedd isel iawn o DDdY wedi'u sicrhau gan BILl – cyfeiriodd sawl ysgol at heriau wrth gael mynediad at DDdY iechyd oherwydd bod BILl yn gwrthod / yn methu â'i ddarparu.
- Adroddodd llawer o ysgolion y gallai casglu'r data hwn gryfhau atebolrwydd, o bosibl ysgogi newid a gwelliant a mynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebwyd hyd yma wrth ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn cyfarfodydd CDU.
- Roedd rhai ysgolion yn ofni y byddai hyn yn arwain at fwy o fiwrocratiaeth a llwyth gwaith heb gymorth cyfatebol neu welliannau system.

**Cwestiwn 6: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw dysgwr ag ADY eisiau i rywfaint neu'r cyfan o'i DDdY gael ei darparu yn y Gymraeg (fel y cofnodir yn ei CDU)?**

**Tabl 6: Atebion i Gwestiwn 6**

| **Categori ateb** | **Nifer ymatebion** | **Canran ymatebion (%)** |
|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | 35 | 38 |
| Cytuno | 26 | 28 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 21 | 23 |
| Anghytuno | 6 | 6 |
| Anghytuno’n gryf | 5 | 5 |
| Cyfanswm | 93 | 100 |

n= 93

O’r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 66% (61 allan o 93) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn, 23% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 9% yn anghytuno, neu yn anghytuno’n gryf.

43 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 6.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Bod angen y data hwn i nodi bylchau posibl o ran argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn cynnwys nodi bylchau posibl o ran argaeledd sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn ogystal â bylchau posibl o ran argaeledd DDdY cyfrwng Cymraeg mewn rhai unedau ADY arbenigol a darpariaeth ADY arbenigol (e.e. DDdY i ddysgwyr â nam ar eu golwg).

Themâu eraill a godwyd gan ymatebwyr a gytunodd â'r cynnig hwn oedd:

- Yr angen am y data i gefnogi'r gwaith o gynllunio darpariaeth – yn enwedig ar lefel ALI. Nododd yr ymatebwyr hyn fod angen y data hwn i helpu i nodi'r angen am fwy o adnoddau DDdY cyfrwng Cymraeg yn ogystal â hyfforddiant Cymraeg i ymarferwyr sy'n cefnogi dysgwyr gydag ADY.

- Ymhlith y pwyntiau eraill a godwyd gan y rhai a gytunodd â'r cynnig hwn roedd yr angen i'r data gefnogi tegwch wrth gael mynediad at ddarpariaeth ddwyieithog ac i fonitro mynediad dysgwyr at DDdY cyfrwng Cymraeg.

Fodd bynnag, cwestiynodd lleiafrif bach o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn hefyd pam ei fod yn ofynnol oherwydd, yn eu barn nhw, y dylai gael ei adlewyrchu eisoes yn CDU dysgwr unigol. Nododd lleiafrif bach tebyg hefyd, er eu bod yn ystyried y data yn fuddiol, bod ganddynt rai pryderon am y llwyth gwaith

ychwanegol posibl y gallai ei roi ar ysgolion a'r angen am ganllawiau ynglŷn â sut y dylid casglu'r data hwn.

Ymhlith y lleiafrif a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn, y thema a godwyd amlaf oedd:

- Nid oedd angen y data oherwydd ei fod eisoes wedi'i gofnodi ar CDUau unigol a / neu fod iaith y ddarpariaeth yn amherthnasol cyn belled â bod dysgwyr yn cael y cymorth ADY angenrheidiol.
- Nododd nifer fach y byddai casglu'r data hwn yn wastraff arian neu'n symud ffocws oddi wrth ddarpariaeth cymorth ADY yn fwy cyffredinol.

Dim ond dau o'r ymatebwyr a nododd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig wnaeth gynnig sylwadau ychwanegol. Ymhlith y rhain nodwyd y byddai'r data yn gymharol hawdd i'w gasglu er bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch pwrpas casglu'r data hwn.

Adroddodd ymatebwyr ALl a sefydliadau'r trydydd sector yn amlach yr angen i'r data hwn gefnogi'r gwaith o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'i gymharu ag ymatebwyr gweithlu addysg a rhieni/gofalwyr. Nododd ymatebwyr y gweithlu addysg a rhieni/gofalwyr yn amlach yn cwestiynu a oedd angen y data.

**Adborth grwpiau ffocws**

Nododd cyfranwyr ALl:

- Roedd y data hwn yn bwysig i rai dysgwyr e.e. dysgwyr ag ADY sy'n dod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i AHYYY lle mae DDdY cyfrwng Cymraeg erbyn hyn.
- Nododd eraill eu bod yn teimlo y byddai casglu'r data hwn yn dyblygu'r hyn sydd eisoes yn cael ei gasglu mewn CDUau ac o fewn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Nododd cyfranwyr o ysgolion:

- Nododd rhai cyfranogwyr yr ysgol, er y gallai'r wybodaeth hon fod yn ddiddorol, eu bod yn cwestiynu'r angen amdani, gan nodi y byddai iaith yr DDdY yn yr ysgol yn adlewyrchu iaith y lleoliad.
- Nododd rhai, pe na bai'r ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg, ni fyddai'n cael ei chynnwys yn yr CDU fel gofyniad – arweiniodd hyn hefyd at rywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r angen am y data.

Roedd eraill o'r farn bod y data hwn yn fwy perthnasol i CDUau ALl lle efallai na fydd rhywfaint o ddarpariaeth arbenigol e.e. cymorth iaith a lleferydd – ar gael yn Gymraeg er bod yr holl ddarpariaeth arall ar gael yn Gymraeg

**Cwestiwn 7. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw dysgwr ag ADY yn derbyn DDdY yn y Gymraeg (lle mae hyn yn ofynnol fel y cofnodir yn ei CDU)?**

**Tabl 7: Atebion i Gwestiwn 7**

| **Categori ateb** | **Nifer ymatebion** | **Canran ymatebion (%)** |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 34 | 37 |
| Cytuno | 25 | 27 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 22 | 24 |
| Anghytuno | 7 | 8 |
| Anghytuno'n gryf | 5 | 5 |
| Cyfanswm | 93 | 101 |

n= 93
Nodyn: Mae canrannau'n dod at 101% yn y golofn hon oherwydd talgrynnu lleoedd degol.

O'r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 63% (59 allan o 93) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn, 24% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 13% yn anghytuno, neu yn anghytuno'n gryf.

32 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 7.

Cynigiwyd themâu tebyg i'r rhai a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 6 gan y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig sy'n ymwneud â chwestiwn 7. Hynny yw:

- Bod angen y data i nodi bylchau posibl yn y ddarpariaeth, gan gynnwys adnoddau a sgiliau Cymraeg ymarferwyr cymorth ADY
- Bod angen i'r data nodi meysydd anghenion o fewn DDdY cyfrwng Cymraeg arbenigol.
- Pwynt arall a godwyd yn aml gan yr ymatebwyr hyn oedd bod angen i'r data hwn nodi gwahaniaethau yn y gofyniad am DDdY cyfrwng Cymraeg a gofnodwyd ar CDUau a'r hyn sy'n cael ei ddarparu.

Nododd y lleiafrif a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r cynnig hwn themâu tebyg i'r rhai sy'n ymwneud â chynigion a amlinellir yng nghwestiwn 6. Hynny yw:

- Nid oes angen y data oherwydd ei fod eisoes wedi'i gofnodi ar CDUau unigol a / neu nad yw'n berthnasol i gefnogaeth ADY.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig ac yn cynnig sylwadau ychwanegol, yr unig themâu a godwyd oedd:

- Y byddai'n gymharol hawdd casglu'r data hwn (gan gydnabod y byddai'n rhaid ei gasglu ar wahân ar lefel ysgol ac ALI mewn llawer o achosion).

- Nodwyd hefyd nad oedd yn glir a fyddai'r data hwn yn dyblygu data sy'n cael ei gasglu a'i gofnodi ar hyn o bryd yn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**Adborth grwpiau ffocws**

Roedd cyfranogwyr o ysgolion ac ALlau yn cytuno y dylid cofnodi DDdY cyfrwng Cymraeg mewn CDUau, ond maent yn nodi heriau ymarferol:

- Nid oes maes MIS cyson i gofnodi a oes angen DDdY yn Gymraeg, gan arwain at ddibynnu ar adrannau sylwebaeth i gofnodi hyn.
- Pryderon am lwyth gwaith ychwanegol i ysgolion cyfrwng Cymraeg, sydd eisoes dan bwysau.
- Sylw cyffredinol a gynigiwyd gan lawer o gyfranogwyr grŵp ffocws oedd, er eu bod yn cytuno y gellid cipio'r data ac y gallai gynnig trosolwg ledled Cymru o'r sefyllfa, bod rhaid i gasglu data hefyd fod â phwrpas clir a manteision diriaethol i ysgolion ac ALlau.
- Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y byddai casglu'r data hwn yn werthfawr, gan y gallai helpu i nodi a chofnodi achosion lle nad oedd darparu DDdY cyfrwng Cymraeg yn bosibl o fewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru gasglu unrhyw wybodaeth arall am DDdY dysgwyr er mwyn deall yn well tegwch y cymorth a deiliannau dysgwyr?**

Cynigiodd 44 o ymatebwyr ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn.

Cynigiwyd amrywiaeth o awgrymiadau gan ymatebwyr yn ymwneud â gwybodaeth arall y gellid ei chasglu.

Roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r angen i gasglu mwy o ddata ar y canlyniadau a gyflawnwyd gan ddysgwyr ADY o ganlyniad i'r DDdY y maent yn ei dderbyn.

- Awgrymwyd y dylai data nid yn unig ddal pwy sy'n darparu pa gymorth i ddysgwyr, ond hefyd yn cofnodi sut mae'n cael ei ddarparu, i ba raddau, a gyda pha effaith.
- Nododd nifer fach o ymatebwyr fod llawer o bwyslais wedi'i roi ar asesu canlyniadau llythrennedd dysgwyr a gefnogir gan DDdY ond y dylid cofnodi mwy o ddata sy'n ymwneud â chanlyniadau eraill a gyflawnwyd gan y dysgwyr hyn hefyd.

Nid oedd awgrymiadau eraill a gynigiwyd gan ymatebwyr o reidrwydd yn ymwneud â'r angen am fwy o ddata ond yn hytrach yr angen am fwy o gysondeb yn y ffordd y mae data yn cael ei ddal ar hyn o bryd.

- Roedd y safbwyntiau hyn yn ymwneud â sut mae data yn cael ei gofnodi ar draws ysgolion ac ALlau yn ogystal â phrosesau a systemau sydd ar waith i gasglu'r data hwn.

- Byddai sicrhau bod mwy o ddata yn cael ei gasglu mewn fformat cyson ledled Cymru yn galluogi gwerthusiadau ar lefel genedlaethol i gael eu cynnal ac yn cefnogi mwy o atebolrwydd.

- Nododd rhai o'r ymatebwyr a nododd yr angen am fwy o gysondeb mewn perthynas â'r data a gasglwyd am anghenion dysgwyr unigol hefyd fod cyflawni hyn yn gymhleth gan fod anghenion dysgwyr unigol yn aml yn eang ac yn anodd eu cofnodi yn feintiol.

Gwnaed awgrymiadau bod angen mwy o ddata i amlinellu'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael ar draws ALlau a lleoliadau unigol i gefnogi'r gwaith o gyflawni DDdY.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid casglu mwy o ddata mewn perthynas â phrydlondeb.

- Roedd y meysydd data a awgrymwyd yn cynnwys nifer yr ysgolion a'r ALlau sy'n cwblhau'r broses ADY ac yn cyhoeddi CDU o fewn yr amserlenni statudol.
- Pa mor gyflym y mae DDdY yn cael ei roi ar waith.

Nododd eraill y dylid casglu mwy o ddata ar ddysgwyr sy'n derbyn cymorth ychwanegol ond nad ydynt wedi'u cofrestru fel ADY.

- Roedd cyfeiriadau yma yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â dysgwyr blynyddoedd cynnar sy'n derbyn cymorth er nad ydynt wedi cydnabod ar hyn o bryd bod ganddynt ADY.
- Cyfeiriadau hefyd at yr angen am ddata am ddysgwyr heb CDU ond sy'n dal i dderbyn rhyw fath o gymorth ychwanegol o fewn lleoliadau ysgol.

Roedd lleiafrif bach o'r ymatebwyr yn credu na ddylid casglu data gan nad oedd yn angenrheidiol. Dadleuon nhw y dylid gwneud penderfyniadau am DDdY ar sail unigol ac wedi'u llywio gan farn rhieni a barn broffesiynol ymarferwyr ADY, yn hytrach na bod yn gysylltiedig â data.

### Adborth grwpiau ffocws

Nododd cyfranwyr ALl:

- Data sy'n ymwneud â chanlyniadau - dylid casglu mwy o ddata yn ymwneud â'r graddau y mae'r targedau a amlinellir yn CDUau wedi'u cyflawni.

Nododd cyfranwyr o ysgolion:

- Byddai data sy'n ymwneud â sut mae ysgolion yn diffinio DDdY o fewn eu lleoliad yn fuddiol.

## Dysgwyr ag ADY mewn dosbarthiadau arbennig

**Cwestiwn 9: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw dysgwr ag ADY mewn lleoliad prif ffrwd yn cael ei addysgu mewn dosbarth arbennig?**

**Tabl 8: Atebion i Gwestiwn 9**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion (%) |
|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | 45 | 47 |
| Cytuno | 31 | 32 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 14 | 15 |
| Anghytuno | 4 | 4 |
| Anghytuno’n gryf | 2 | 2 |
| Cyfanswm | 96 | 100 |

n=96

O’r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 79% (76 allan o 96) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn, 15% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 6% yn anghytuno, neu yn anghytuno’n gryf.

54 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 9.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Angen eglurder ar y diffiniad o "dosbarth arbennig". Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod y term yn amwys ac yn gofyn am feini prawf a chanllawiau clir i osgoi dehongliad anghyson ar draws ysgolion ac ALlau. Fe wnaethant hefyd amlygu y gall dysgwr dreulio dim ond rhan, neu'r cyfan, o'i amser mewn dosbarthiadau o'r fath, gan ychwanegu cymhlethdod pellach
- Mae casglu'r data hwn yn werthfawr ar gyfer monitro cynhwysiant a thueddiadau dysgwyr. Dywedodd ymatebwyr y byddai'r data yn helpu i olrhain ailintegreiddio, nodi dysgwyr sy'n treulio amser y tu allan i'r brif ffrwd, a rhoi mewnwelediad i ba mor gynhwysol yw'r system mewn gwirionedd.
- Defnyddiol i gefnogi penderfyniadau cynllunio a chyllido gyda sawl ymatebydd yn nodi y gallai'r data lywio dyrannu adnoddau, gan gynnwys lle mae ysgolion yn ariannu darpariaeth eu hunain, a chryfhau'r achos dros gymorth ychwanegol.
- Defnyddiol fel tystiolaeth o gapasiti a phwysau galw. Nododd ymatebwyr y gallai casglu'r data hwn ddangos bylchau mewn darpariaeth arbenigol a dangos graddfa'r angen a reolir ar hyn o bryd o fewn lleoliadau prif ffrwd.
- Roedd ymatebwyr yn credu y byddai'r data yn helpu i fynd i'r afael â heriau ariannu i ysgolion sy'n darparu dosbarthiadau arbennig, gan esbonio bod ysgolion yn aml yn eu hariannu o gyllidebau sydd eisoes wedi'u hymestyn, gan leihau adnoddau ar gyfer ymyriadau eraill.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, y pwyntiau a godwyd amlaf oedd:

- Ansicrwydd ynghylch yr hyn a fyddai'n cyfrif fel "dosbarth arbennig" ac ymatebwyr yn cwestiynu perthnasedd a chadernid y data pe bai diffiniadau yn agored i'w dehongli.

Ymhlith y lleiafrif bach a oedd yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Cododd ymatebwyr bryderon ymarferol, gan nodi bod casglu data ar lefel dysgwyr yn ddata personol a gallai stigmateiddio disgyblion.
- Fe wnaethant dynnu sylw at anawsterau wrth gofnodi patrymau presenoldeb amrywiol.
- Roedd gwrthwynebiadau i weithredu dosbarthiadau arbennig gydag ymatebwyr yn dadlau y dylai dysgwyr ag ADY aros yn y brif ffrwd lle bynnag y bo modd, gyda lleoliadau arbenigol dim ond pan gytunwyd arnynt yn ffurfiol trwy CDUau yn unol ag egwyddorion cynhwysol.

Ailadroddwyd sylwadau ar gyfer cwestiwn 9 yn aml mewn ymatebion i'r cwestiynau dilynol yn y set hon (C9–C12) ar ddosbarthiadau arbennig.

**Adborth grwpiau ffocws**

Roedd adborth y grwpiau ffocws yn adlewyrchu themâu tebyg i'r ymatebion ysgrifenedig. Nododd cyfranogwyr o ALlau ac ysgolion:

- Pryderon ynghylch diffyg diffiniad clir, cyson o'r hyn sy'n cyfrif fel "dosbarth arbennig," gyda rhybudd y byddai'r data heb hyn, a heb ganllawiau cenedlaethol clir, yn annibynadwy ac yn agored i gamddehongli.
- Pryderon y gallai casglu'r data hwn gael eu hystyried fel cymeradwyo neu annog ysgolion i greu dosbarthiadau arbennig, a oedd rhai yn teimlo eu bod yn gwrthdaro ag egwyddorion cynhwysiant.

**Cwestiwn 10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch faint o amser y mae dysgwr ag ADY yn ei dreulio mewn dosbarth arbennig?**

**Tabl 9: Atebion i Gwestiwn 10**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 38 | 40 |
| Cytuno | 34 | 35 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 15 | 16 |
| Anghytuno | 5 | 5 |
| Anghytuno'n gryf | 4 | 4 |
| Cyfanswm | 96 | 100 |

n=96

O'r rhai a gwblhaodd y cwestiwn roedd 75% (72 allan o 96) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 16% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 9% yn anghytuno, neu yn anghytuno'n gryf.

48 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 10.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r data hwn fel ffordd o adeiladu darlun cenedlaethol cliriach o ddarpariaeth ADY a chryfhau cynllunio strategol.
- Fel gyda chwestiwn 9, angen eglurder ar y diffiniad o "dosbarth arbennig" gydag ymatebwyr yn pwysleisio bod y term yn amwys. Gofynnwyd am feini prawf clir a chyson yn genedlaethol i osgoi dehongliadau anghyson ar draws ysgolion ac ALlau.
- Nododd yr ymatebwyr y gallai'r data gefnogi penderfyniadau cynllunio a chyllido ac i ddeall a dyrannu adnoddau yn well lle mae ysgolion yn ariannu darpariaeth ychwanegol eu hunain ar hyn o bryd.
- Tystiolaeth o gapasiti a phwysau galw: awgrymodd sawl sylw y byddai'r data yn datgelu bylchau mewn darpariaeth arbenigol a graddfa'r angen a reolir ar hyn o bryd mewn ysgolion prif ffrwd.
- Nododd ymatebwyr y gallai'r data roi mewnwelediad i ba mor gynhwysol yw lleoliadau prif ffrwd, olrhain ailintegreiddio, a dangos pa mor aml y mae dysgwyr yn treulio amser y tu allan i ddosbarthiadau prif ffrwd.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, y thema a godwyd amlaf oedd:

- Cwestiynodd ymatebwyr ddiffiniad a defnyddioldeb data "dosbarth arbennig", gan nodi dryswch ynghylch yr hyn sy'n cyfrif, gwahaniaethau rhwng ysgolion, a'r risg o ganlyniadau anghyson.
- Roedd rhai o'r farn efallai na fydd casglu'r data hwn yn berthnasol ac yn pwysleisio'r angen am eglurder ynghylch sut y bydd yn cael ei ddefnyddio.

Ymhlith y lleiafrif bach a oedd yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Rhybuddiodd ymatebwyr y gallai'r data guddio anghenion heb eu diwallu, gan ddangos dim ond y rhai mewn dosbarthiadau arbennig tra'n anwybyddu prinder, ac fel ar gyfer y cwestiwn blaenorol pwysleisiodd y dylai lleoliadau arbenigol barhau i fod yn eithriadol a dilyn prosesau CDU statudol.

**Adborth grwpiau ffocws**

Roedd adborth grwpiau ffocws yn adlewyrchu themâu tebyg i'r ymateb ysgrifenedig. Nododd cyfranogwyr o ALlau ac ysgolion:

- Mae data yn ddefnyddiol mewn egwyddor, ond mae'n cael ei ystyried fel y mwyaf problematig i'w gasglu'n gyson oherwydd amrywioldeb o ddydd i ddydd, digwyddiadau bugeiliol, a gwahanol fodelau cyflwyno. Roedd llawer yn ffafrio categorïau eang (e.e., llawn amser / rhan-amser neu ystodau / sesiynau eang) dros union oriau i leihau'r baich a'i wneud yn fwy tebygol o gael ei adrodd yn gyson.

- Y prif broblem a nodwyd oedd dichonoldeb: mae'r amser a dreulir yn amrywio bob dydd a dros y flwyddyn, gan wneud cofnodi cywir yn anodd a pheryglu cipluniau camarweiniol.
- Pwynt arall a godwyd oedd pryder y gallai data amser gael ei gamddefnyddio fel mesur cynhwysiant yn hytrach nag ar gyfer cynllunio, felly mae canllawiau clir ar ddiben a defnydd data yn hanfodol.

## Gwybodaeth am ddosbarthiadau arbennig

**Cwestiwn 11: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar nifer y dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion mewn lleoliad prif ffrwd (i ategu'r data a gasglwyd eisoes ar ddosbarthiadau arbennig dynodedig gan awdurdodau lleol)?**

**Tabl 10: Atebion i Gwestiwn 11**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion (%) |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 46 | 48 |
| Cytuno | 29 | 31 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 15 | 16 |
| Anghytuno | 2 | 2 |
| Anghytuno'n gryf | 3 | 3 |
| Cyfanswm | 95 | 100 |

n=95

O'r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 79% o ymatebwyr (75 allan o 95) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 16% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 5% yn anghytuno, neu yn anghytuno'n gryf.

40 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 11.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Dywedodd yr ymatebwyr fod casglu data ar ddosbarthiadau arbennig a ddynodwyd gan ysgolion yn bwysig i ddeall graddfa'r angen, mapio darpariaeth ledled Cymru, a chynllunio cymorth.
- Mae diffiniadau clir a chyson yn hanfodol, gan gynnwys yr hyn sy'n cyfrif fel "dosbarth arbennig," er mwyn osgoi dryswch a sicrhau bod data yn ystyrlon ac yn ddefnyddiol.
- Tynnodd sylwadau sylw at bwysau capasiti sylweddol, heriau ariannu a phroblemau staffio, gyda darpariaeth hunan-ariannu llawer o ysgolion oherwydd lleoliadau arbenigol cyfyngedig.
- Nododd ymatebwyr y dylai unrhyw gasglu data newydd osgoi creu baich gweinyddol diangen a bod yn gysylltiedig â systemau presennol.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Cododd ymatebwyr faterion ymarferol fel a fyddai data yn cael ei gasglu mewn pwyntiau sefydlog neu fel data "byw", ac awgrym y dylai'r data gael ei gasglu gan ALlau nid ysgolion.
- Awgrymiadau ar gyfer data arall a allai fod yn fwy defnyddiol, gan gynnwys niferoedd ar y rhestr aros ar gyfer darpariaeth arbenigol.

Ymhlith y lleiafrif bach a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Cwestiynodd ymatebwyr eglurder a gwerth casglu'r data hwn, gan awgrymu bod mecanweithiau presennol (e.e., adroddiadau Estyn) eisoes yn dangos hyn.
- Nododd ymatebwyr bryderon ymarferol am ddiffiniadau.

### Adborth grwpiau ffocws

Nododd cyfranogwyr o’r ALlau a'r ysgolion:

- Y prif bryder oedd diffiniadau, a diffinio dosbarthiadau "dynodedig ysgol", gan fod dulliau yn amrywio'n fawr. Heb eglurder, nodwyd y byddai'r data yn annibynadwy.
- Pwynt arall a godwyd oedd bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn croesawu'r data hwn fel tystiolaeth o'r galw heb ei ddiwallu ac yn sail ar gyfer cynllunio adnoddau yn well.

Nododd cyfranwyr ALl:

- Roedd gan gyfranogwyr ALl bryderon y gallai hyn roi caniatâd anuniongyrchol i ysgolion greu dosbarthiadau ar wahân i ddysgwyr y mae'n well ganddynt beidio â chadw yn y brif ffrwd.

**Cwestiwn 12: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar nifer y dysgwyr mewn dosbarthiadau arbennig dynodedig gan ysgolion (i ategu'r data a gasglwyd eisoes ar nifer y dysgwyr mewn dosbarthiadau arbennig dynodedig gan awdurdodau lleol)?**

**Tabl 11: Atebion i Gwestiwn 12**

| **Categori ateb** | **Nifer ymatebion** | **Canran ymatebion (%)** |
|---|---:|---:|
| Cytuno'n gryf | 42 | 44 |
| Cytuno | 33 | 34 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 15 | 16 |
| Anghytuno | 4 | 4 |
| Anghytuno'n gryf | 2 | 2 |
| Cyfanswm | 96 | 100 |

n=96

O'r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 78% (75 allan o 96) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig, roedd 16% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 6% yn anghytuno, neu yn anghytuno'n gryf.

30 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 12.

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, roedd y themâu a'r prif bwyntiau a godwyd amlaf yn debyg i gwestiynau cynharach am ddosbarthiadau arbennig:

- Adroddodd ymatebwyr y byddai casglu'r data hwn yn ategu'r wybodaeth ALl bresennol ac yn darparu trosolwg cenedlaethol cyflawn.
- Mae'r ymatebwyr yn credu y byddai'r data hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y galw, nodi anghenion heb eu diwallu, a sicrhau mynediad teg at ddarpariaeth ar draws rhanbarthau a chyfryngau iaith.
- Fel gyda chwestiynau blaenorol ar ddosbarthiadau arbennig, pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am ddiffiniadau clir a chysondeb yn y defnydd o dermau a meini prawf casglu data

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, roedd sylwadau yn cynnwys:

- Fel o'r blaen, cododd ymatebwyr faterion ymarferol megis a fyddai data yn cael ei gasglu ar bwyntiau sefydlog neu fel data "byw", ac awgrym y dylai'r data gael ei gasglu gan ALlau nid ysgolion.

Ymhlith y lleiafrif bach a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, materion a nodwyd oedd:

- Pryder am greu gormod o gategorïau ar gyfer casglu data.
- Cred y dylai'r ffocws aros ar ganlyniadau disgyblion yn hytrach na labeli a nodi'r amrywiaeth eang yn yr hyn y gallai ysgolion ei ddynodi fel dosbarth "arbennig".

**Adborth grwpiau ffocws**

Nododd cyfranogwyr o ALlau ac ysgolion:

- Pryder y gallai'r data / nifer y dysgwyr fod yn gamarweiniol heb gyd-destun, yn enwedig gan fod modelau'n wahanol rhwng ysgolion ac awdurdodau. Galwodd cyfranogwyr am 'rybuddion iechyd' ar ddehongli data.
- Pwynt arall oedd y byddai'r data hwn yn helpu i nodi'r galw cudd a chefnogi penderfyniadau ar gyllid a darpariaeth arbenigol, yn enwedig mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.
- Pwynt arall a godwyd oedd yr angen am feini prawf cynhwysiant clir (e.e., trothwy amser lleiaf) er mwyn osgoi cyfrif ymyriadau tymor byr fel dosbarthiadau arbennig.

## Amseroldeb penderfyniadau ADY ac adolygiadau CDU

**Cwestiwn 13: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel gyfanredol ar gyfran y penderfyniadau ADY a wnaed gan ysgolion ac awdurdodau lleol o fewn yr amserlenni statudol yn ystod y 12 mis diwethaf (lle nad yw eithriadau'n gymwys)?**

**Tabl 12: Atebion i Gwestiwn 13**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion (%) |
|---|---:|---:|
| Cytuno’n gryf | 45 | 47 |
| Cytuno | 24 | 25 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 20 | 21 |
| Anghytuno | 3 | 3 |
| Anghytuno’n gryf | 3 | 3 |
| Cyfanswm | 95 | 99 |

n=95
Nodyn: *Mae canrannau'n dod at 99% yn y golofn hon oherwydd talgrynnu lleoedd degol.

O’r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 73% (69 allan o 95) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig, roedd 21% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 6% yn anghytuno, neu yn anghytuno’n gryf.

45 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 13.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn ddata defnyddiol a / neu bwysig i'w gasglu. Dywedodd yr ymatebwyr, yn eu barn nhw, fod oedi mewn

penderfyniadau yn effeithio ar ganlyniadau i ddysgwyr ac roeddent o'r farn y gallai casglu'r data hwn helpu i dynnu sylw at ble a pham y digwyddodd oedi, gan gynnwys tynnu sylw at a oedd oedi yn effeithio ar ddysgwyr â nodweddion penodol (er enghraifft siaradwyr Cymraeg) yn fwy nag eraill.

- Pryderon y gallai casglu data ychwanegol ychwanegu at y baich gweinyddol ar gyfer CADYau neu sylwadau yn nodi na ddylai unrhyw newidiadau ychwanegu at lwyth gwaith CADY. Nododd rhai ymatebwyr efallai na fydd y data yn cael ei gadw gan ysgolion ar yr un systemau a ddefnyddir ar gyfer cyflwyno ffurflenni CYBLD, ac y gallai hyn felly ychwanegu at y baich gweinyddol i'r ysgolion hyn.
- Bod amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau yn heriol ac y gallai casglu'r data hwn helpu i dynnu sylw at faint y mater hwn.
- Y dylid casglu'r rhesymau dros oedi hefyd, er mwyn galluogi dealltwriaeth o ble roedd oedi yn digwydd yn y system a pham.
- Materion sy'n ymwneud ag atebolrwydd, gyda rhai yn nodi pryderon y gellid defnyddio'r data fel mesur atebolrwydd tra bod eraill yn teimlo y gallai hyn fod yn ddatblygiad cadarnhaol neu'n ddangosydd perfformiad a allai fod yn ddefnyddiol. Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid cefnogi ysgolion nad ydynt yn cwrdd â'r amserlenni yn hytrach na beirniadu a gofynnodd rhai am fwy o fanylion ar sut y byddai'r data hwn yn cael ei ddefnyddio.
- Pryderon ynghylch sut y byddai'r data yn cael ei gasglu'n gyson a/neu ei ddilysu i sicrhau cywirdeb.
- Ystyriaethau ymarferol, megis a fyddai'r data yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac ALlau gofnodi nifer y penderfyniadau "Dim CDU" ar wahân.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Cwestiynau ynghylch a fyddai'r data yn cael ei ddefnyddio at ddibenion atebolrwydd.
- Ystyriaethau ymarferol, megis pwy fyddai'n gyfrifol am gasglu'r wybodaeth a sut.

Ymhlith y lleiafrif bach a oedd yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Pryderon am lwyth gwaith ychwanegol ac amserlenni sy'n gysylltiedig â phrosesau gwneud penderfyniadau.

Cododd ymatebwyr ALl rai pwyntiau yn amlach o'i gymharu ag ymatebwyr gweithlu addysg a rhieni/gofalwyr, yn benodol:

- Bod y data hwn yn bwysig a/neu'n ddefnyddiol i'w gasglu.
- Materion sy'n ymwneud â'r llwyth gwaith ychwanegol posibl ac atebolrwydd ALl.
- Ystyriaethau ymarferol ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am gasglu'r data a sut (codwyd y pwynt hwn hefyd yn amlach gan gyflenwyr MIS nag ymatebwyr gweithlu addysg a rhieni/gofalwyr).

**Adborth grwpiau ffocws**
Roedd adborth y grwpiau ffocws yn adlewyrchu themâu tebyg i’r ymatebion ysgrifenedig.

Nododd cyfranwyr ALl:

- Yn gyffredinol, roeddent yn cytuno bod casglu'r data hwn yn syniad da ac y gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio a deall pam nad oedd amserlenni yn cael eu bodloni.
- Bod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chasglu neu ei chofnodi mewn rhyw ffurf.
- Roedd ganddynt rai pryderon y gellid defnyddio'r data i ddal lleoliadau ac ALlau i gyfrif.

Nododd cyfranwyr o ysgolion:

- Yn gyffredinol, roeddent yn cytuno â'r cynnig ac yn teimlo y byddai'n tynnu sylw at rai o'r heriau a wynebwyd ganddynt wrth gwrdd â'r dyddiadau cau.
- Roedd ganddynt rai pryderon y gallai'r data gael ei ddefnyddio fel mesur atebolrwydd ysgolion yn y dyfodol a phwysleisiodd y dylid ei ddefnyddio fel modd i wella'r system yn lle hynny.
- Roedden nhw'n teimlo ei bod yn bwysig casglu gwybodaeth am y rhesymau pam nad oedd amserlenni yn cael eu bodloni, er enghraifft, os nad oedd ysgolion yn cael eu darparu gyda gwybodaeth yr oedd eu hangen arnynt mewn pryd gan bartneriaid allanol.
- Roedden nhw'n teimlo y gallai'r data fod yn ddefnyddiol i ddwyn ALlau i gyfrif.

**Cwestiwn 14: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel gyfanredol ar nifer yr eithriadau i'r amserlenni statudol perthnasol yn ystod y 12 mis diwethaf?**

**Tabl 13: Atebion i Gwestiwn 14**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion (%) |
|---|---:|---:|
| Cytuno’n gryf | 33 | 34 |
| Cytuno | 32 | 33 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 24 | 25 |
| Anghytuno | 3 | 3 |
| Anghytuno’n gryf | 5 | 5 |
| Cyfanswm | 97 | 100 |

n=97

O’r rheini a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 67% (65 allan o 97) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig, roedd 25% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 8% yn anghytuno, neu yn anghytuno’n gryf.

33 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 14.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Bod hwn yn ddata defnyddiol a oedd yn bwysig i'w gasglu oherwydd byddai'n darparu dangosydd a oedd y system yn gweithio fel y bwriadwyd. Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai helpu i nodi amrywioldeb mewn gweithredu rhwng ALlau ac i dargedu cymorth yn briodol i helpu i wella'r system.
- Pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai'r data fod ar gael i'r cyhoedd, a sylwadau ar bwysigrwydd gwneud penderfyniadau amserol, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi plant yn y blynyddoedd cynnar.
- Y dylid casglu'r rhesymau dros oedi ac eithriadau hefyd i lywio gwella system. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid darparu mwy o arweiniad, neu feysydd safonedig, mewn perthynas â'r eithriadau a oedd yn ddilys, er mwyn sicrhau dull cyson ar draws ALlau.
- Nodwyd pryderon am effaith bosibl cyfrifoldebau gweinyddol ychwanegol ar lwyth gwaith CADYau, yr oedd ymatebwyr yn teimlo ei fod eisoes yn sylweddol.
- Roedd bodloni amserlenni statudol yn heriol, ac y byddai'r data yn dangos hyn trwy dynnu sylw at ba mor aml nad oedd dyddiadau cau yn cael eu bodloni, o bosibl yn llywio trafodaethau ynghylch pa mor realistig oedd y disgwyliadau hyn.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Pryderon am effaith bosibl cyfrifoldebau gweinyddol ychwanegol ar lwythi gwaith CADYau.
- Roedd yr amserlenni hynny'n heriol ac weithiau heb eu bodloni.

Ymhlith y lleiafrif bach a oedd yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Pryderon am effaith bosibl cyfrifoldebau gweinyddol ychwanegol ar lwythi gwaith CADYau.
- Y dylid casglu'r rhesymau dros oedi ac eithriadau hefyd i lywio gwella system.

Tynnodd ymatebwyr ALl sylw yn amlach at yr angen am fwy o wybodaeth neu ganllawiau yn ymwneud â'r eithriadau a oedd yn ddilys, o'i gymharu ag ymatebwyr eraill.

### Adborth grwpiau ffocws

Roedd adborth y grwpiau ffocws yn adlewyrchu themâu tebyg i'r ymatebion ysgrifenedig. Nododd cyfranogwyr yr ysgol a'r awdurdod lleol:

- Roedden nhw'n cytuno yn gyffredinol bod casglu'r data hwn yn syniad da.
- Y byddai'n ddefnyddiol casglu data ychwanegol ar y rhesymau dros eithriadau oherwydd gallai hyn gefnogi cynllunio a dealltwriaeth o pam nad oedd amserlenni yn cael eu bodloni.

Nododd cyfranwyr ALl:

- Mewn rhai ardaloedd AL, roeddent eisoes yn casglu'r data hwn, a'u bod yn ei chael hi'n ddefnyddiol i nodi unrhyw wasanaethau lle gallai fod angen capasiti ychwanegol i oresgyn unrhyw rwystrau i gyflawni amserlenni.
- Y gallai'r data fod yn ddefnyddiol wrth nodi unrhyw dueddiadau o ran pam y gwnaethpwyd eithriadau a sut yr esboniwyd y rhesymau hyn i rieni.

**Cwestiwn 15: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel gyfanredol ar gyfran y CDUau a adolygwyd gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn y cyfnod statudol diweddaraf o 12 mis?**

**Tabl 14: Atebion i Gwestiwn 15**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion (%) |
|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | 42 | 44 |
| Cytuno | 28 | 29 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 16 | 17 |
| Anghytuno | 3 | 3 |
| Anghytuno’n gryf | 7 | 7 |
| Cyfanswm | 96 | 100 |

n=96

O'r rhai a gwblhaodd y cwestiwn, roedd 73% (70 allan o 96) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig, roedd 17% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 10% yn anghytuno, neu yn anghytuno’n gryf.

34 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 15.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Ei bod yn bwysig casglu'r data hwn fel mesur o faint o CDUau oedd yn cael eu hadolygu o fewn amserlenni, ac i ddeall pa mor realistig oedd yr amserlenni. Nodwyd bod cwrdd ag amserlenni statudol yn heriol a byddai casglu data yn helpu i ddangos hyn.
- Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd adolygiadau CDU rheolaidd wrth sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu a'u bod yn derbyn cymorth priodol ar yr adeg iawn. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd adolygiadau amserol wrth sicrhau parhad cefnogaeth yn ystod cyfnodau pontio gan gynnwys blynyddoedd cynnar i addysg gynradd, cynradd i addysg uwchradd a thrawsnewidiadau ôl-16.
- Pryderon am effaith bosibl tasgau gweinyddol ychwanegol ar lwyth gwaith CADYau ac ysgolion, er enghraifft os nad oedd y data yn cael ei gadw ar yr un system wybodaeth rheoli a ddefnyddiwyd gan ysgolion ar gyfer ffurflenni CYBLD.
- Ystyriaethau ymarferol gan gynnwys cwestiynau ynghylch sut a phryd y byddai'r data hwn yn cael ei gasglu, yr angen posibl am gasgliadau ar wahân ar gyfer data ar adolygiadau o CDUau a gynhelir gan ysgolion a chynhelir gan

ALl a chwestiynau ynghylch a fyddai casglu data ar lefel unigol yn well na data ar lefel agregedig.

- Cynigiodd ymatebwyr gasglu data ar y rhesymau na ellid bodloni amserlenni statudol i weld a oedd anawsterau cyson y gellid mynd i'r afael â nhw.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Galwad am fwy o eglurder ar sut a phryd y byddai'r data hwn yn cael ei gasglu a sut y byddai'r data yn cael ei ddefnyddio.
- Yr angen am gysondeb wrth gasglu data, er enghraifft trwy sicrhau bod diffiniadau a chanllawiau clir ar gael.
- Pwysigrwydd defnyddio'r data i gefnogi ysgolion, yn hytrach na'u dal i gyfrif.

Ymhlith y lleiafrif bach a oedd yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Pryderon ehangach am y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â chynnal adolygiadau ar gyfer dysgwyr ag ADY, gydag ychydig o ymatebwyr yn cyfeirio at ysgolion sy'n cynnal adolygiadau ar gyfer dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth ac ar gyfer y rhai sydd â CDUau a gynhelir gan ALl (gydag ALlau yn darparu sicrwydd ansawdd y rhain).
- Y gellid casglu'r wybodaeth trwy ddulliau heblaw CYBLD, megis prosesau sicrhau ansawdd ALl, partneriaid gwella ysgolion, prosesau hunanwerthuso ysgolion neu arolygiadau ysgolion.
- Y dylid casglu data arall, megis data ar nifer y CDUau 'wedi dod i ben' yn dilyn adolygiadau, neu ddata ar ba mor aml yr oedd adolygiadau yn digwydd (er enghraifft, mewn achosion lle roedd adolygiadau yn fwy aml na blynyddol).

O'i gymharu ag ymatebwyr eraill, rhoddodd ymatebwyr ALl fwy o bwyslais ar bwysigrwydd casglu'r data hwn i fonitro prydlondeb adolygiadau CDU a chododd bryderon am yr effaith bosibl ar lwyth gwaith ymarferwyr.

**Adborth grwpiau ffocws**

Roedd adborth y grwpiau ffocws yn adlewyrchu themâu tebyg i’r ymatebion ysgrifenedig.

Nododd cyfranwyr ALl:

- Roeddent yn gyffredinol yn cytuno bod casglu'r data hwn yn syniad da a bod y cynnig yn cyd-fynd â'r Cod ADY.
- Gallai casglu'r wybodaeth hon helpu i ysgogi ysgolion i gwblhau adolygiadau o fewn yr amserlenni statudol.
- Y gallai fod baich gweinyddol ychwanegol i ysgolion pe bai'r systemau a ddefnyddir ar gyfer cwblhau ffurflenni PLASC yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cofnodi'r wybodaeth hon.

Nododd cyfranwyr o ysgolion:

- Roedden nhw'n cytuno â'r cynnig yn gyffredinol ond roedd ganddynt rai pryderon am y data sy'n cael ei ddefnyddio fel mesur atebolrwydd ysgolion.

- Roedden nhw'n teimlo y byddai'r data yn tynnu sylw at amserlenni heriol a llwyth gwaith CADYau.
- Byddai ganddynt ddiddordeb mewn gweld yr amrywiadau mewn data ar draws ysgolion ac ALlau a chymariaethau mewn perthynas â CDUau a gynhelir gan ysgolion ac ALlau.

## Cydlynwyr ADY

**Cwestiwn 16: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigolyn ynghylch a yw Cydlynydd ADY (CADY) mewn lleoliad ar yr uwch dîm arwain ai peidio?**

**Tabl 15: Atebion i Gwestiwn 16**

| Categori ateb | Nifer ymatebion | Canran ymatebion |
|---|---:|---:|
| Cytuno’n gryf | 57 | 58 |
| Cytuno | 26 | 26 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 13 | 13 |
| Anghytuno | 2 | 2 |
| Anghytuno’n gryf | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 98 | 100 |

n=98

O'r rhai a gwblhaodd y cwestiwn roedd 84% (83 allan o 98) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig, roedd 13% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 3% yn anghytuno, neu yn anghytuno’n gryf.

42 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 16.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Byddai'r data yn helpu i wella dealltwriaeth o rôl yr CADY. Er enghraifft, cydnabuwyd y bydd y data yn:
  - cynnig darlun mwy cywir o rôl yr CADY.
  - dangos anghysondebau yn rolau a chyfrifoldebau CADY ledled Cymru.
- Pwysigrwydd diffiniadau clir o rolau'r uwch dîm arweinyddiaeth a chydnabyddiaeth y gall hyn amrywio yn dibynnu ar strwythur yr ysgol.
- Roedd ymatebwyr yn cefnogi casglu'r data hwn gan eu bod yn credu y dylid cynnwys pob CADY mewn uwch dimau arweinyddiaeth.
- Pryderon y gallai casglu'r data hwn gael effaith ar lwyth gwaith.
- Dylid casglu data sy'n ymwneud â'r cymwysterau a ddelir gan CADYau hefyd.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Mae casglu data sy'n ymwneud â sut mae amser CADY yn cael ei dreulio yn fwy perthnasol nag a ydynt ar yr uwch dîm arweinyddiaeth.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Pryderon na ddylid gofyn i CADYau fod ar yr uwch dîm arweinyddiaeth.
- Cwestiynu pwrpas casglu'r data hwn.

Adroddodd ymatebwyr ALI yn amlach y dylid casglu'r data hwn ar y sail y dylai CADYau fod yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth, o'i gymharu ag ymatebwyr eraill.

**Adborth grwpiau ffocws**

Roedd adborth y grwpiau ffocws yn adlewyrchu themâu tebyg i'r ymatebion ysgrifenedig.

Nododd cyfranwyr ALI:

- Roeddent yn cytuno yn gyffredinol bod angen hyn ond roedd ganddynt rai pryderon ynglŷn â'r goblygiadau ariannol a nododd y byddai angen rhoi'r data o fewn cyd-destun (e.e. maint yr ysgol).
- Awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol casglu rhagor o ddata ar CADYau fel amser di-gyswllt, amser addysgu, a chymwysterau.

Nododd cyfranwyr o ysgolion:

- Yn gyffredinol, cytunwyd y dylid casglu'r data hwn a nododd fod trefniadau gweithio CADY yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion, gyda sawl un yn darparu enghreifftiau yn seiliedig ar eu gwybodaeth eu hunain am drefniadau ar draws eu clystyrau ysgolion.
- Fe wnaethant fynegi pryder am ddisgwyliadau ychwanegol posibl a llwyth gwaith uwch pe bai'n ofynnol i CADYau fod ar yr uwch dîm arweinyddiaeth.

## Goblygiadau i'r gweithlu

**Cwestiwn 17: Pa effaith fydd y newidiadau arfaethedig i ddata ADY yn ei chael ar y gweithlu, gan gynnwys unrhyw effaith ar lwyth gwaith?**

73 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 17.

Y pwyntiau a godwyd amlaf oedd:

- Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr effeithiau cadarnhaol hirdymor disgwyliedig. Nododd rhai yma y gallai'r wybodaeth a gasglwyd o'r data wella'r llwyth gwaith presennol, lleihau'r amser a dreulir ar dasgau gweinyddol, a datgelu'r angen am gymorth pellach yn y rôl.
- Mynegodd sawl ymatebydd bryder y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith negyddol ar lwyth gwaith yr CADY. Nododd llawer ar yr un pryd y byddai hyn yn arbennig o effeithiol oherwydd barn bod llwyth gwaith yr CADY eisoes yn anghynaladwy.

- Nododd eraill y byddai newidiadau yn gofyn am addasu rôl a chyfrifoldebau'r CADY, megis gosod yr CADY o fewn yr uwch dîm arweinyddiaeth neu ddarparu rôl CADY cynorthwyol i ddelio â gweinyddu casglu data. Nododd rhai y byddai unrhyw newidiadau yn cynnwys goblygiadau ar gyfer hyfforddiant staff.
- Nododd llawer fod angen datblygu offeryn digidol i gasglu'r data yn effeithiol, un sy'n gweithio ochr yn ochr â system rheoli gwybodaeth ysgolion, er mwyn sicrhau cysondeb wrth gasglu ac i osgoi cynyddu'r llwyth gwaith.
- Ychydig a nododd y gallai'r data ddangos y diffyg capasiti Cymraeg ac felly effeithio ar gynnydd yn yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

## Cyffredinol

**Cwestiwn 18: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y data y dylid eu cofnodi neu y dylem eu casglu i fonitro a deall effeithiolrwydd y system ADY wrth gefnogi dysgwyr ag ADY?**

58 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 18.

Y pwyntiau mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd:

- Awgrymodd ymatebwyr eitemau data ychwanegol, megis:
    - adborth ansoddol gan ddysgwyr a theuluoedd ar eu profiad o'r ddarpariaeth.
    - canlyniadau ôl-16 ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn DDdY.
    - lefel ADY o'i gymharu â'r ddarpariaeth sydd ar gael, megis mewn ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig, neu addysg gartref.
    - nifer yr ail-ystyriaethau mewn ALlau ac ysgolion.
    - nifer y tribiwnlysoedd sy'n digwydd bob blwyddyn.
    - data pellach ar CADYau, megis sut mae amser CADY yn cael ei dreulio, a oes unrhyw staff yn y swydd sy'n cefnogi rôl CADY a chyfraddau cadw CADY.
    - data pellach ar yr union ffordd y defnyddir cyllid a ddyrannwyd fesul dysgwr a sut mae'r gyllideb yn cael ei defnyddio mewn ysgolion.
    - data pellach ar CDUau, megis yr union amserlen o ddatblygu CDU a faint o ddysgwyr sydd â CDUau drafft ar hyn o bryd.
    - data pellach am ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol ac sy'n cael eu cefnogi, ond nad oes ganddynt CDU.
- Mynegodd rhai bryder am sut y byddai'r data yn cael ei ddehongli, ac na ddylid defnyddio'r data i raddio ysgolion yn gymharol.

**Cwestiwn 19: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y data newydd arfaethedig am y system ADY ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

- **Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**
- **Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

82 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 19.

Y themâu mwyaf cyffredin oedd:

- Cyfeiriodd sawl ymatebydd at effeithiau cadarnhaol yr oeddent yn rhagweld y byddai'r newidiadau yn eu cael. Roedd yr ymatebwyr hyn yn credu y dylid darparu ar gyfer dewisiadau iaith ac felly croesawodd y newidiadau data arfaethedig. Yn ogystal, mynegodd yr ymatebwyr hyn hefyd sut roeddent yn teimlo y byddai'r newidiadau yn arwain at welliannau yn ansawdd y data sy'n cael ei gasglu y gellid eu defnyddio wedyn i gefnogi dysgwyr ag ADY yn y system yn well.
- Tynnodd nifer o gyfranogwyr sylw at sut y gall y newidiadau arwain at fwy o welededd y Gymraeg, yn enwedig o ran yr heriau sy'n wynebu darpariaeth Gymraeg. Nodwyd y gallai hyn arwain at well ymwybyddiaeth a chynllunio cymorth o fewn y system.
- Dywedodd sawl ymatebydd nad oeddent yn rhagweld unrhyw effeithiau ar y Gymraeg o'r newidiadau arfaethedig. Nododd rhai o'r cyfranogwyr hyn eu bod mewn ardaloedd Saesneg yn bennaf ac felly nid oeddent yn disgwyl y bydd unrhyw effaith ar hyrwyddo'r Gymraeg.
- Roedd canfyddiad mewn lleiafrif o ymatebion y gallai'r newidiadau gyflwyno baich anghymesur gan na fyddai data sy'n benodol i'r Gymraeg yn berthnasol i lawer o leoliadau.
- Nododd eraill nad oeddent yn teimlo y byddai unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg oherwydd y newidiadau.

Nododd ymatebwyr o'r gweithlu addysg yn amlach eu bod yn teimlo y byddai'r newidiadau yn cael effaith gadarnhaol ac yn arwain at gasglu data o ansawdd gwell.

**Cwestiwn 20: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu’r data newydd arfaethedig am y system ADY er mwyn sicrhau:**

- **eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; neu**
- **nad ydynt yn cael effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?**

77 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i gwestiwn 20.

Y pwyntiau mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd:
- Nododd sawl ymatebydd nad oeddent yn teimlo bod angen unrhyw newidiadau ychwanegol i'r data newydd arfaethedig. Tynnodd yr ymatebwyr

hyn sylw at y dylai'r newidiadau arfaethedig gyfrannu at safoni a thegwch cefnogaeth ar draws y ddwy iaith ac felly nid oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau ar gyfer diwygiadau.

- Tynnodd nifer fach o ymatebwyr sylw at sut y dylid defnyddio'r data, ar ôl ei gasglu, i gymharu a oes unrhyw wahaniaethau rhwng yr ieithoedd, yn enwedig unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mynegodd lleiafrif o ymatebion bryderon y gallai'r newidiadau arwain at adrodd symbolaidd nad yw'n adlewyrchu arfer ar lawr gwlad.
- Dywedodd sawl ymatebydd nad oeddent yn siŵr a oedd angen newidiadau ychwanegol i'r cynigion ac amlygodd nad oedd ganddynt farn gref ar y cynigion ynglŷn â'r Gymraeg. Nodwyd bod hyn oherwydd bod rhai o'r ymatebwyr hyn yn gweithio trwy gyfrwng y Saesneg, yn hytrach na Chymraeg, ac felly nid oeddent yn rhagweld unrhyw newidiadau uniongyrchol i'w rôl/darpariaeth eu hunain.

**Cwestiwn 21: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi cyfeirio atynt yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w rhannu:**

Rhannodd 40 o ymatebwyr sylwadau pellach mewn ymateb i gwestiwn 21.

Y themâu mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr oedd:

- Rhoddodd sawl ymatebydd awgrymiadau ar ddata ychwanegol yr oeddent yn teimlo y dylid ei gasglu. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:
  - nifer y dysgwyr sy'n cael cymorth ychwanegol nad yw'n cael ei ystyried yn DDdY
  - mynediad at ddarpariaeth arbenigol (amseroedd aros ac effaith ar ddysgwyr)
  - Llwyth gwaith CADY
  - nifer y staff cymorth ADY (fel swyddogion gweinyddol) sy'n cefnogi CADYau
- Mynegodd sawl ymatebydd bryderon am y newidiadau i gasglu data a'r effaith ar lwyth gwaith staff, yn enwedig rôl CADY (megis gweinyddu ychwanegol am ychydig o fudd canfyddedig).

**Adborth grwpiau ffocws**

Nododd cyfranogwyr ALI:

- Awgrymiadau ar gyfer data ychwanegol yr oeddent yn teimlo y dylid eu casglu. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:
- nifer y dysgwyr sydd â chynlluniau gofal iechyd i helpu i dynnu sylw at gymhlethdod anghenion gofal iechyd mewn ysgolion
- data pontio eilaidd ar gyfer plant sy'n pontio o brif ffrwd i ddarpariaeth ALI arbenigol
- CADY amser di-addysgu/di-gyswllt i ddeall effaith y rôl yn well

- a yw CADYau yn rhan o’r uwch dîm arweinyddiaeth
- a yw ADY wedi'i gynnwys mewn Cynlluniau Gwella Ysgolion unigol fel maes blaenoriaeth
- a yw amserlenni statudol yn cael eu bodloni
- Gallai newidiadau i feysydd data gyflwyno heriau gyda MIS. Nododd ymatebwyr fod angen amseroedd hir yn aml i gysylltu â darparwyr meddalwedd allanol ac y dylid adlewyrchu hyn yn amserlenni unrhyw newidiadau data.
- Mae gwahanol systemau MIS ar waith ar draws ALlau ac ysgolion, ac mae heriau presennol gydag integreiddio cipio data ar draws y systemau. Codwyd pryderon y gallai meysydd ychwanegol arwain at ddyblygu gwaith sydd angen ei ystyried.
- Dylid archwilio'r potensial ar gyfer system TG genedlaethol ganolog i oresgyn amrywiadau yn y casglu data presennol a symleiddio prosesau.
- Gwnaed ceisiadau am ganllawiau clir unwaith y bydd newidiadau data yn cael eu cadarnhau. Roedd hyn yn cynnwys eglurder dros derminoleg a diffiniadau i sicrhau cysondeb â chasglu data.
- Dylid defnyddio unrhyw newidiadau data neu gasglu data ychwanegol i lywio gwelliannau i'r system i'w gwneud yn werth chweil, gyda'r rhesymeg dros newidiadau yn cael ei gyfathrebu'n glir.

Nododd cyfranwyr o ysgolion:

- Bydd angen eglurder ynglŷn â MIS a sut y bydd data ychwanegol yn cael ei gasglu a'i adrodd i archwilio dichonoldeb bodloni unrhyw ofynion data newydd.
- Bydd angen hyfforddiant ar ddulliau neu systemau casglu data newydd i sicrhau cysondeb ar draws lleoliadau.
- Dylai unrhyw newidiadau data hefyd gynnwys monitro nifer y dysgwyr sydd â diagnosis iechyd ond nad oes ganddynt CDU fel y gellir deall bylchau posibl yn y ddarpariaeth yn well.

## Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

Dim ond yr ymatebwyr a gytunodd i gael eu henwi sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad hwn. Gofynnodd cyfanswm o 69 o ymatebwyr am aros yn anhysbys, felly nid yw hon yn rhestr gyflawn o'r holl ymatebwyr, ac mae'r holl ddata personol wedi'i ddileu.

Anabledd Dysgu Cymru
Athro arbenigol [ ardal ]
Awdurdod lleol Abertawe
Awdurdod lleol Caerdydd
Awdurdod lleol Caerffili
Awdurdod lleol Casnewydd
Awdurdod lleol Ceredigion
Awdurdod lleol Sir Fynwy
Bromcom
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru (CBSeic Cymru)
Comisiynydd y Gymraeg
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Estyn
Medr
Mudiad Meithrin
NAHT Cymru
NASUWT
NEU Cymru
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru (RNIB Cymru)
Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg
UCAC
UKABIF
Unison
Yr Adran Addysg (DfE)
Ysgol annibynnol yn ne Cymru
Ysgol Gynradd [ enw ]